





Swansea University  
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff  
WMGN34 - Ailgyrchu Plastig Labordai;  
Blychau Polystyren EPS a blychau  
Polypropylen

<b>Awdur:</b>	Fiona Wheatley
<b>Cymeradwywyd gan:</b>	Heidi Smith
<b>Dyddiad creu:</b>	30/03/2020

<b>Nodyn Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff WMGN34 Ailgylchu Plastig Labordy Blychau Polystyren EPS a Blychau Polypropylen</b>	
Lleoliad a Gynhyrchwyd	Amrywiol
CGE (Côd Gwastraff Ewropeaidd)	15 01 02 Pecynnu plastig
Math	Drych Nad yw'n Beryglus
Dull Gwaredu	Caiff ei wahanu ar gyfer ailgylchu
Bin/ Math o Fag	Caiff ei fwndeli ar gyfer cywasgu ac ailgylchu
<b>Gofynion Dyletswydd Gofal</b>	
<p>Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff weithredu'r hierarchaeth wastraff ar gyfer pob ffrwd er mwyn lleihau faint o wastraff a anfonir i'w waredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod gwastraff o bob math yn cael ei wahanu yn y ffynhonnell a'i waredu drwy'r ffrwd gywir. Gwastraff trefol cyffredinol ddylai fod yr opsiwn olaf.</p> <p>Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i wahanu ei gwastraff yn y ffynhonnell, gan ganolbwyntio ar wahanu yn unol â ffrydiau ailgylchu allweddol; caniau, papur, plastigau, bwyd a gwydr. Mae gwahanu yn y ffynhonnell yn gwella ansawdd deunydd eildro ac mae hefyd yn cadw at Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Mae'r Rheoliadau'n nodi bod yn rhaid casglu deunyddiau fel papur, metel, plastig a gwydr ar wahân er mwyn annog deunydd ailgylchu o ansawdd uchel.</p> <p>Er ei fod yn cael ei ystyried yn wastraff nad yw'n beryglus, mae'n ofyniad cyfreithiol o dan y Rheoliadau Gwastraff Peryglus i wahanu gwastraff peryglus oddi wrth wastraff nad yw'n beryglus ac i sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei ddsbarthu'n gywir. Gall gwaredu gwastraff peryglus yn anghywir drwy'r ffrwd gwastraff trefol gyffredinol arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio.</p> <p>Mae'r Brifysgol bellach yn gallu bwndelu (cyn trin) rhai mathau o blastig i'w hailgylchu, sy'n golygu gostyngiad yng nghyffaint y gwastraff swmpus a roddir mewn biniau nad ydynt yn rhai ailgylchu, tra'n cydymffurfio â'r hierarchaeth wastraff.</p> <p>Rhaid gwahanu'r Polystyren "EPS" (polystyren estynedig) canlynol ac erbyn hyn rhaid gwahanu blychau blaenau plastig a gynhyrchir mewn labordai i'w hailgylchu;</p>	
	Blychau pecynnu gwyn Polystyren EPS (polystyren estynedig)
	Blychau blaenu gwag Polypropylen

Rydym yn chwilio'n barhaus am lwybrau ailgylchu newydd ar gyfer plastigau untro labordai.

### Eitemau

Mae llawer o archebion cyflenwi labordy yn cyrraedd yn ddiogel mewn blychau polystyren gwyn, rhaid **gwahanu'r** rhain i'w hailgylchu erbyn hyn.



Rhaid i'r Blwch arddangos symbol triongl PS 06

**Tynnwch yr holl becynnu a thâp o'r blychau i'w hailgylchu. Rhaid eu chwistrellu/sychu'n lân gyda Virkon/ ethanol/isopropanol**

### Eitemau

Cynhyrchir llawer iawn o flychau domen wag gan labordai, rhaid **gwahanu'r** rhain yn awr i'w hailgylchu (pob lliw).



Rhaid i'r Blwch arddangos symbol triongl PP 05

**Tynnwch yr holl becynnu a thâp o'r blychau i'w hailgylchu. Rhaid eu chwistrellu/sychu'n lân gyda Virkon/ ethanol/isopropanol**

### Cyfarwyddiadau Gwaredu

#### Campws Singleton

- Pan fydd 5-10 blwch wedi'u storio
- Chwistrellwch/sychwch yn lân gyda Virkon/ ethanol/isopropanol
- Trefnwch archeb waith drwy'r [ddesg gymorth](#) i'w casglu

#### Campws y Bae

- Pan fydd 5-10 blwch wedi'u storio
- Chwistrellwch/sychwch yn lân gyda Virkon/ ethanol/isopropanol
- Ewch i swyddfa buarth gwasanaethau Peirianeg **i'w storio'n fewnol**

### Cyfarwyddiadau Gwaredu

#### Campws Singleton

- Chwistrellwch/sychwch y blwch blaenau'n lân gyda Virkon/ ethanol/isopropanol
- Casglwch mewn bag clir (e.e. sach 60l os yw'r lle'n caniatáu)
- Pan fydd bag yn llawn, trefnwch archeb waith drwy'r [ddesg gymorth](#) i'w gasglu

#### Campws y Bae

- Chwistrellwch/sychwch y blwch blaenau'n lân gyda Virkon/ ethanol/isopropanol
- Casglwch mewn bag clir (e.e. sach 60l os yw'r lle'n caniatáu)

<ul style="list-style-type: none"><li>- Swyddfa'r buarth gwasanaethau i greu gorchymyn gwaith i'w casglu</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>- Pan fydd bag yn llawn, ewch ag ef i swyddfa'r buarth gwasanaethau <b>i'w storio'n fewnol</b></li><li>- Swyddfa'r buarth gwasanaethau i greu archeb waith i'w casglu</li></ul>
<p><b>Cost Gwaredu</b></p> <p>Mae'r gost gwaredu yn rhan o ddarpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; felly nid oes cost uniongyrchol i unigolion/Cyfadrannau/unedau gwasanaethau proffesiynol. <u>Fodd bynnag</u>, gall unigolion leihau'r gost a chyfrannu at darged y Brifysgol i sicrhau cyfradd dargyfeirio o 63% i ffwrdd o Troi Gwastraff yn Ynni neu dirlenwi drwy sicrhau bod yr holl blastig ailgylchadwy yn cael ei waredu drwy'r biniau pwrpasol.</p>	
<p><b>I gael rhagor o arweiniad, cysylltwch ag <a href="mailto:estates-waste@abertawe.ac.uk">estates-waste@abertawe.ac.uk</a></b> Neu <a href="#">cliciwch</a> yma i weld tudalen Ychydig lawn o Wastraff y Brifysgol</p>	

## Ailgylchu Plastig Labordy

### Blychau Blaenau Polypropolen a Blychau Polystyren EPS

